

## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Ionawr 2016 i'w hateb ar 20 Ionawr 2016

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.  
(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

**1. Elin Jones (Ceredigion):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o sgîl-effaith debygol y toriadau arfaethedig i'r cyllid i gefnogi cyhoeddi llyfrau ar y diwydiant cyhoeddi ac argraffu?  
OAQ(4)0661(EST)W

**2. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu amgueddfeydd i gyflawni statws achrediad?  
OAQ(4)0655(EST)

**3. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd i gynorthwyo datblygiad busnesau ym Mhort Talbot? OAQ(4)0660(EST)

**4. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am barodrwydd ar gyfer y gaeaf ar draws seilwaith trafniadaeth Cymru?  
OAQ(4)0659(EST)

**5. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ffordd gyswllt yr A466 yng Nghas-gwent? OAQ(4)0658(EST)

**6. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddinas-ranbarth bae Abertawe? OAQ(4)0669(EST)

**7. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r diwydiant dur yng Nghymru?  
OAQ(4)0666(EST)

**8. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiolrwydd ardaloedd menter yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0662(EST)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ynglŷn â datblygu economi tref Caerfyrddin? OAQ(4)0668(EST)W

**10. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y datblygiad SA1 yn Abertawe? OAQ(4)0657(EST)

**11. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganiad am ddatblygu polisi gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(4)0665(EST)

**12. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau bach? OAQ(4)0663(EST)

**13. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo'r economi forol yng Nghymru? OAQ(4)0667(EST)

**14. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr isadeiledd trafniadaeth o fewn rhanbarth bae Abertawe? OAQ(4)0656(EST)

**15. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i deithio llesol yng Nghymru? OAQ(4)0664(EST)

## **Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol**

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith eraill ynglŷn â'r goblygiadau cyfreithiol i Gymru o'r Bil Undebau Llafur? OAQ(4)0091(CG)W

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith eraill am y 'prawf angenrheidrwydd' ym Mil Cymru drafft? OAQ(4)0092(CG)W

**3. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ynghylch cynnwys cyfrifoldeb am beiriannau hapchwarae ods sefydlog ym Mil Cymru drafft? OAQ(4)0089(CG)

**4. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda chydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban am y Bil Undebau Llafur? OAQ(4)0090(CG)